# ELLIS, MORGAN ALBERT (1832 - 1901), pregethwr, etc., yn U.D.A.;

**Enw:** Morgan Albert Ellis
**Dyddiad geni:** 1832
**Dyddiad marw:** 1901
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** pregethwr, etc.
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Robert (Bob) Owen

Ganwyd 19 Medi 1832, ym Melin y Coed gerllaw Machynlleth. Er ei fod o deulu tlawd cafodd gymorth i gael addysg dda a graddio. Bu'n cadw Ysgol Genedlaethol a oedd dan nawdd Syr Robert Williames Vaughan, barwnig, Nannau, Sir Feirionnydd; wedyn bu'n ysgolfeistr cyntaf Ysgol Brydeinig Nant Peris, Sir Gaernarfon. Yn 1853 ymfudodd i U.D.A. Bu'n byw yn Pennsylvania, yn Utica, N.Y., lle yr oedd yn olygydd *Y Gwyliedydd*, a bu yn New York am dymor yn golygu *Y Drych a'r Gwyliedydd*. Symudodd o New York i West Bangor, Pa., i gadw ysgol; yno y dechreuodd bregethu. Ordeiniwyd ef yn 1865. Bu'n gweinidogaethu gyda'r Methodistiaid Calfinaidd mewn gwahanol fannau - Ebensburg, Pa.; Hyde Park, Pa.; Bangor, Pa.; Cincinnati, Ohio; etc.; yna aeth tua'r gorllewin i fod yn weinidog yn San Francisco a hefyd yn Coal Creek, Colorado. Pan ffurfiwyd cymanfa gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd yn U.D.A. yn Columbus, Ohio, yn 1869, dewiswyd ef yn ysgrifennydd. Bu'n golygu neu'n cydolygu *Y Cyfaill*, *Baner America*, a *Blodau yr Oes a'r Ysgol*; yr oedd yn gyd-berchennog y trydydd o'r rhain. Bu farw 1 Mehefin 1901 yn Pueblo, Colorado.

## Awdur

**Robert (Bob) Owen**, (1885 - 1962)

## Ffynonellau


*Y Cyfaill cylchgrawn misol y Presbyteriaid Cymreig yn America* (Utica), 1901, 287-8

*The Cambrian* (Utica), 1901, 377

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1901, 139

D. J. Williams, *One Hundred Years of Welsh Calvinistic Methodism in America* (Philadelphia 1937) (Philadelphia, 1937)

*Y Drych* Utica), 22 Hydref 1903


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733935


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu